O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2164 (Cy. 231)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 (Brynbuga i Raglan, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*31 Awst 2011*
Yn dod i rym	*12 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A449/A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd" neu "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd neu'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno neu arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 (Brynbuga i Raglan, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period"*) yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 12 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" *("the lengths of the trunk roads")* yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 rhwng Brynbuga a Rhaglan yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.